# Fframwaith Cymhwysedd Digidol

| Dinasyddiaeth | Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn dod i ddeall beth yw bod yn ddinesydd digidol cydwybodol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol o'u cwmpas ac sy'n gwerthuso'n feirniadol eu lle o fewn y byd digidol hwn. Byddan nhw'n barod am agweddau cadarnhaol a negyddol o fod yn ddinesydd digidol a byddan nhw'n datblygu strategaethau a dulliau i'w helpu wrth iddyn nhw ddatblygu'n gynhyrchwyr ac yn ddefnyddwyr annibynnol. |
|---|---|

| Llinyn | Elfen | Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 | Cam cynnydd 4 | Cam cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinasyddiaeth | **Hunaniaeth, delwedd ac enw da** | Rwy'n gallu gwahaniaethu rhwng rhywun rwy'n ei adnabod a rhywun nad wyf erioed wedi cyfarfod ag ef. | Rwy'n gallu gwahaniaethu rhwng gwybodaeth breifat a gwybodaeth bersonol ac rwy'n gwybod pryd i'w datgelu. | Rwy'n gallu deall sut i ddiogelu fy hunan rhag cael fy hunaniaeth wedi'i ddwyn ar-lein, *e.e. adnabod gwefannau diogel, gwe-rwydo, gwefannau sgamio*. | Rwy'n gallu deall bod gen i ôl-troed digidol ac y gellir chwilio am yr wybodaeth hon, a'i chopïo a'i hanfon ymlaen. | Rwy'n gallu datblygu enw da cadarnhaol o ran rhagolygon cyflogaeth, *e.e. defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol*. |
| | | Rwy'n gallu adnabod data ar-lein gyda chymorth oedolyn, *e.e. dod o hyd i ddelweddau ohonof i fy hun ac eraill ar wefan yr ysgol/ar dudalen cyfryngau cymdeithasol yr ysgol*. | Rwy'n gallu deall bod rhoi gwybodaeth ar-lein yn gadael ôl-troed digidol. | Rwy'n gallu nodi manteision a risgiau dyfeisiau symudol sy'n cyhoeddi lleoliad y defnyddiwr/dyfais. | Rwy'n gallu trafod manteision a risgiau cyflwyno fy hun mewn gwahanol ffyrdd ar-lein. | Rwy'n gallu esbonio materion moesegol amgryptio corfforaethol, *e.e. cynnwys system osgoi*. |
| | | Rwy'n gallu sylweddoli bod canlyniadau i weithredoedd ac rwy'n gallu nodi rheolau a strategaethau syml i gadw fy hun yn ddiogel ar-lein. | Rwy'n ymwybodol o reolau syml ar gyfer rhannu delweddau a data. | Rwy'n gallu meddwl yn feirniadol am wybodaeth a gaiff ei rhoi ar-lein, *e.e. effaith rhannu delweddau a fideos, metadata o ddelweddau a fideos*. | Rwy'n gallu defnyddio strategaethau ar gyfer gwarchod fy hun rhag cael fy hunaniaeth wedi'i ddwyn ar-lein a rhag sgamiau sy'n ceisio cael mynediad at fy ngwybodaeth bersonol ar-lein. | Rwy'n gallu pennu a disgrifio polisïau diogelu data amrywiaeth o sefydliadau o wahanol wledydd, a sut y mae hyn yn effeithio ar eu ffordd o weithio. |
| | | | Rwy'n gallu nodi a defnyddio strategaethau ar gyfer diogelu data personol a chaledwedd, *e.e. defnyddio cyfrineiriau diogel*. | Rwy'n gallu nodi manteision a risgiau rhoi gwybodaeth bersonol a rhoi mynediad i wahanol feddalwedd i ddyfeisiau. | | Rwy'n gallu adnabod y risgiau a'r defnydd o ddata/gwasanaethau ar ddyfeisiau personol, o fewn telerau ac amodau ystod o wasanaethau meddalwedd a gwe, a nodi sut y mae sefydliadau yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheolau data wrth ddefnyddio cynhyrchion amlwladol. |
| | **Iechyd a lles** | Rwy'n gallu nodi a defnyddio ystod o gyfryngau a dyfeisiau digidol o brofiadau cyfarwydd. | Rwy'n gallu cydnabod cyfyngiadau oedran ac addasrwydd cyfryngau a dyfeisiau digidol, *e.e. deall sgoriau PEGI, chwarae/gwylio cynnwys/gemau amhriodol, prynu pethau ar apiau*. | Rwy'n gallu deall pwysigrwydd cael cydbwysedd rhwng amser yn chwarae gemau neu amser sgrin a rhannau eraill o'm bywyd, *e.e. ystyried y rhesymau posibl pam rwy'n cael fy nhemtio i dreulio mwy o amser yn chwarae gemau neu'n ei chael hi'n anodd stopio chwarae a'r effaith a gaiff hyn ar fy lles*. | Rwy'n gallu myfyrio ar rôl y cyfryngau digidol yn fy mywyd a'm harferion. | Rwy'n gallu meddwl yn feirniadol am wahanol ddibenion a chyd-destunau golygu delweddau digidol, *e.e. archwilio manteision a phwyntiau negyddol trin ffotograffau, gwerthuso delweddau sydd wedi'u golygu'n ddigidol o ran eu cyd-destun a'u diben*. |
| | | | Rwy'n gallu nodi ac esbonio manteision ac anfanteision cyfryngau a dyfeisiau digidol, *e.e. yr effeithiau a gaiff amser sgrin ar les*. | Rwy'n gallu adnabod dylanwadau cadarnhaol a negyddol ehangach technoleg, *e.e. ar fy mywyd, ar gymdeithas, ar yr amgylchedd*. | Rwy'n gallu arfer ymddygiadau ar-lein iach ac adnabod ymddygiad annerbyniol. | Rwy'n gallu cymryd camau rhesymol i osgoi problemau iechyd a achosir gan y defnydd o dechnoleg ac awgrymu strategaethau i atal neu leihau'r problemau corfforol a seicolegol. |
| | | | | Rwy'n gallu adnabod elfennau marchnata sydd wedi'u dylunio i dynnu fy sylw. | Rwy'n gallu nodi ffyrdd o roi gwybod am ymddygiad ar-lein annerbyniol. | Rwy'n gallu deall y cyfrifoldebau cyfreithiol o ran cael gwared ar dechnoleg a'r effaith amgylcheddol sydd ynghlwm wrth hynny. |
| | | | | | Rwy'n gallu nodi stereoteipiau a'u heffaith mewn amrywiaeth o gyfryngau. | |
| | | | | | Rwy'n gallu gwneud dewisiadau deallus wrth wneud dewisiadau ar-lein, gan gynnwys prynu pethau ar apiau a chlicio ar hysbysebion. | |

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40511 ISBN digidol 978 1 80038 461 3

# Fframwaith Cymhwysedd Digidol

| Dinasyddiaeth | Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn dod i ddeall beth yw bod yn ddinesydd digidol cydwybodol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol o'u cwmpas ac sy'n gwerthuso'n feirniadol eu lle o fewn y byd digidol hwn. Byddan nhw'n barod am agweddau cadarnhaol a negyddol o fod yn ddinesydd digidol a byddan nhw'n datblygu strategaethau a dulliau i'w helpu wrth iddyn nhw ddatblygu'n gynhyrchwyr ac yn ddefnyddwyr annibynnol. |
|---|---|

| Llinyn | Elfen | Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 | Cam cynnydd 4 | Cam cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinasyddiaeth | **Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth** | Rwy'n gallu ychwanegu fy enw at waith digidol. | Rwy'n gallu esbonio sut a phryd y mae'n iawn i ddefnyddio gwaith pobl eraill a pham y mae rhoi credyd i rywun yn arwydd o barch. | Rwy'n gallu deall mai llên-ladrad yw copïo gwaith eraill a'i gyflwyno fel fy ngwaith fy hun. | Rwy'n gallu deall hawlfraint ac esbonio elfennau cyfreithiol a moesegol parchu gwaith creadigol, *e.e. ystyried goblygiadau moesegol a chyfreithiol lladrad a llên-ladrad a gwybod bod hynny'n anghyfrifol ac yn amharchus*, ac rwy'n gallu defnyddio fy nealltwriaeth o'r rheolau a'r rheoliadau mewn gwahanol senarios. | Rwy'n gallu nodi'r pwyntiau allweddol sydd eu hangen i ddefnydd o waith creadigol gael ei ystyried yn ddefnydd teg ac i gydymffurfio â deddfau diogelu data drwy archwilio'r ystyriaethau cyfreithiol a moesegol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio gwaith creadigol pobl eraill. |
| | | Rwy'n gallu adnabod gwaith sy'n berchen i eraill. | Rwy'n gallu adnabod marciau dŵr a symbolau hawlfraint a deall pam y maen nhw'n cael eu defnyddio. | Rwy'n gallu cyfeirio at ffynonellau wrth ymchwilio ac esbonio pwysigrwydd gwneud hynny, *e.e. creu rhestrau syml ar gyfer cyfeirnodi ffynonellau digidol a ffynonellau all-lein*. | Rwy'n gallu ymddwyn yn gyfrifol fel curadur a defnyddiwr gwaith creadigol, *e.e. ystyried penderfyniadau y mae'r crewyr yn eu gwneud wrth arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau creadigol*, gan ystyried materion moesegol, bywyd go iawn. | Rwy'n gallu deall a myfyrio ar y gwahaniaethau rhwng cael ysbrydoliaeth o waith creadigol pobl eraill a meddiannu'r gwaith hwnnw heb ganiatâd. |
| | | | | Rwy'n gallu deall y gellir golygu delweddau'n ddigidol ac yn gallu trafod yr hawliau a'r caniatadau sydd ynghlwm wrth hyn. | | Rwy'n gallu deall hawliau a chyfrifoldebau unigolion fel crewyr a defnyddwyr cynnwys, ac rwy'n gallu meddwl yn feirniadol a gwneud penderfyniadau moesegol am y defnydd o waith creadigol mewn perthynas â defnydd teg a chyfeirio gan ddefnyddio systemau cyfeirnodi ffurfiol, *e.e. Harvard a Rhydychen*. |
| | | | | | | Rwy'n gallu deall y dadleuon cyfreithiol a moesegol sy'n gysylltiedig â defnyddio gwaith creadigol pobl eraill; ac rwy'n ystyried safbwyntiau'r crëwr gwreiddiol, cynulleidfaoedd posibl, a'r gymuned ehangach wrth ddefnyddio deunyddiau sy'n perthyn i eraill. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40511 ISBN digidol 978 1 80038 461 3

# Fframwaith Cymhwysedd Digidol

| Dinasyddiaeth | Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn dod i ddeall beth yw bod yn ddinesydd digidol cydwybodol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol o'u cwmpas ac sy'n gwerthuso'n feirniadol eu lle o fewn y byd digidol hwn. Byddan nhw'n barod am agweddau cadarnhaol a negyddol o fod yn ddinesydd digidol a byddan nhw'n datblygu strategaethau a dulliau i'w helpu wrth iddyn nhw ddatblygu'n gynhyrchwyr ac yn ddefnyddwyr annibynnol. |
|---|---|

| Llinyn | Elfen | Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 | Cam cynnydd 4 | Cam cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinasyddiaeth | **Ymddygiad ar-lein a bwlio ar-lein** | Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar beth rwy'n ei hoffi ac nad wyf yn ei hoffi. | Rwy'n gallu defnyddio technoleg ddigidol i gyfathrebu a chysylltu â phobl eraill yn lleol ac yn fyd-eang. | Rwy'n gallu arddangos ymddygiad priodol ar-lein a defnyddio ystod o strategaethau i ddiogelu fy hun ac eraill rhag peryglon posibl, bwlio ac ymddygiad amhriodol ar-lein, *e.e. diffodd sylwadau ar gyfryngau digidol, rhoi gwybod am ddefnyddwyr a'u blocio*. | Rwy'n gallu ymddwyn yn briodol ar-lein, gan gadw fy hun yn ddiogel ac ymddwyn mewn modd cyfrifol. | Rwy'n gallu roi strategaethau priodol ar waith i ddiogelu fy hawliau, fy hunaniaeth, fy mhreifatrwydd a'm diogelwch emosiynol fy hun ac eraill mewn cymunedau ar-lein. |
| | | Rwy'n gallu cyfleu rhai o'm teimladau. | Rwy'n gallu esbonio'r gwahaniaethau rhwng cyfathrebu all-lein a chyfathrebu ar-lein. | Rwy'n gallu deall risgiau a goblygiadau cyfreithiol anfon delweddau a chynnwys personol/secstio. | Rwy'n gallu deall goblygiadau gweithredoedd ar-lein, gan gynnwys fy ôl-troed digidol a goblygiadau cyfreithiol rhannu deunydd amhriodol. | Rwy'n gallu gwerthuso ymddygiad ar-lein yn barhaus, gan ystyried canlyniadau gweithredoedd; cymryd camau i leihau risgiau i ddiogelwch; ystyried safbwyntiau byd-eang a diwylliannol ac addasu ymddygiad yn unol â hynny. |
| | | Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o deimladau pobl eraill. | Rwy'n gallu llunio negeseuon clir a phriodol mewn cymunedau ar-lein a rhyngweithio'n briodol. | Rwy'n gallu adnabod iaith a allai gael ei hystyried yn ymosodol (gan gynnwys iaith hiliol, rhywiaethol, homoffobig a thrawsffobig) mewn gweithgareddau ar-lein. | Rwy'n gallu deall bod ffotograffau, lleoliadau a thagiau yn gallu cael eu tracio ar-lein ac yn gallu gwneud dewisiadau deallus yn unol â hynny. | |
| | | | Rwy'n gallu nodi gwahanol ffurfiau ar fwlio, gan gynnwys bwlio ar-lein, ac awgrymu strategaethau ar gyfer mynd i'r afael ag ef, *e.e. dilyn yr un rheolau wrth gyfathrebu wyneb yn wyneb ac ar-lein*. | | | |

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40511 ISBN digidol 978 1 80038 461 3

# Fframwaith Cymhwysedd Digidol

| Rhyngweithio a chydweithio | Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn edrych ar ddulliau cyfathrebu electronig ac yn gwybod pa rai sydd fwyaf effeithiol. Bydd dysgwyr hefyd yn storio data ac yn defnyddio technegau cydweithio yn llwyddiannus. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinyn** | **Elfen** | **Cam cynnydd 1** | **Cam cynnydd 2** | **Cam cynnydd 3** | **Cam cynnydd 4** | **Cam cynnydd 5** |
| Rhyngweithio a chydweithio | **Cyfathrebu** | Rwy'n gallu siarad am wahanol ffurfiau ar gyfathrebu ar-lein, e.e. *e-bost, negeseuo, galwad fideo*. | Rwy'n gallu cyfnewid cyfathrebiad ar-lein syml gan ddefnyddio un fath o dechnoleg neu fwy, e.e. *e-bost neu alwad fideo*. | Rwy'n gallu cyfnewid cyfathrebiadau ar-lein, gan ddefnyddio ystod gynyddol o nodweddion sydd ar gael, e.e. *ychwanegu atodiadau neu hyperddolenni, newid fformatio*. | Rwy'n gallu dewis a defnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu ar-lein at ddibenion penodol, a hynny gyda lefel uwch o fedrusrwydd, e.e. *creu a rheoli llyfr cyfeiriadau, trefnu cysylltiadau, defnyddio nodweddion uwch y darparwr e-bost (llofnod, ateb awtomatig, derbynneb darllen, wijets)*. | Rwy'n gallu gwneud defnydd o wahanol wasanaethau cyfathrebu ar-lein at ddibenion penodol, a myfyrio arnyn nhw, gan gyfiawnhau'r dewisiadau a wneir yn seiliedig ar ba mor briodol ydyn nhw i drosglwyddo'r wybodaeth. |
| | | | Rwy'n gallu esbonio manteision cyfathrebu'n electronig, e.e. *arbed amser, cost effeithiol, llawer o ddefnyddwyr yn gallu cyfathrebu ar yr un pryd*. | Rwy'n gallu dangos dealltwriaeth o fanteision ac anfanteision gwahanol ffurfiau ar gyfathrebu ar-lein a phryd y mae'n briodol eu defnyddio, e.e. *esbonio pryd y gallai cynadledda fideo fod yn fwy priodol nag e-bost, ac fel arall; esbonio manteision ac anfanteision defnyddio negeseuon sydyn mewn cyd-destunau cymdeithasol; siarad am ddiben a chynulleidfa*. | | Rwy'n gallu defnyddio rhaglen postgyfuno at ddiben perthnasol i gyfuno data o nifer o ffynonellau. |
| | **Cydweithredu** | Rwy'n gallu cydweithio i greu gwaith digidol. | Rwy'n gallu defnyddio llwyfannau cydweithredu ar-lein i greu a golygu ffeil, e.e. *prosesu geiriau, rhaglenni cyflwyno a thaenlenni*. | Rwy'n gallu cydweithio i greu prosiect ar-lein ar y cyd at ddiben penodol, gan rannu a gosod caniatâd mewn ffordd briodol ar gyfer aelodau eraill y grŵp, e.e. *golygu, rhoi sylwadau, gweld*. | Rwy'n gallu dewis yn annibynnol a defnyddio ystod o ddulliau cydweithio i greu prosiect gydag eraill mewn un iaith neu fwy, e.e. *defnyddio technoleg ar-lein i rannu a chyflwyno syniadau i eraill*. | Rwy'n gallu myfyrio ar y dewis o ddatrysiadau cydweithio, eu defnyddio'n briodol a sôn am sut y gellid gwella hyn i gyflawni amcanion tasgau. |
| | **Cyfnewid a rhannu gwybodaeth** | Rwy'n gallu cadw fy ngwaith digidol a'i adalw, e.e. *clicio ar eiconau, o fewn apiau, lluniau camera*. | Rwy'n gallu cadw ffeiliau i leoliad penodol gan ddefnyddio enw ffeil priodol y byddai'n hawdd chwilio amdano. | Rwy'n gallu creu a rhannu hyperddolenni i ffeiliau lleol, rhwydwaith ac ar-lein. | Rwy'n gallu defnyddio dulliau rheoli ffeiliau datblygedig, e.e. *hanes fersiynau, adfer y fersiwn flaenorol, tagio, cywasgu*. | Rwy'n gallu defnyddio gwasanaethau ar-lein i rannu cynnwys priodol â chynulleidfa fyd-eang, e.e. *lanlwytho cynnwys i wefannau cyhoeddus i'w rannu â chynulleidfaoedd penodol*. |
| | | | Rwy'n gallu cadw gwaith gan ddefnyddio prosesau gwahanol er mwyn osgoi colli gwaith. | Rwy'n gallu rheoli ffeiliau a ffolderi yn lleol neu ar-lein, e.e. *symud ffeiliau i ffolder*. | Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth o amgryptio syml a diben amgryptio, e.e. *anfon data sensitif yn fwy diogel*. | Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau deallus am fathau o ffeiliau a deall materion yn ymwneud â chydweddoldeb, e.e. *anawsterau golygu ffeiliau PDF, y gwahaniaethau rhwng ffeiliau sain*. |
| | | | | Rwy'n gallu chwilio am ffeiliau penodol. | Rwy'n gallu rheoli dolenni i ffeiliau, gan roi ystyriaeth i ganiatâd a lleoliadau ffeiliau, e.e. *mae rhai systemau storio ffeiliau'n defnyddio hyperddolenni deinameg felly os newidir lleoliad ffeil mae'r ddolen yn aros yr un peth, yn wahanol i systemau eraill sy'n golygu bod hyperddolenni'n torri o ganlyniad i newid lleoliad ffeil*. | |
| | | | | Rwy'n gallu lanlwytho ffeiliau o yriant lleol i storfa ar-lein. | | |

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40511 ISBN digidol 978 1 80038 461 3

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

| Cynhyrchu | Mae'r elfennau hyn yn ymdrin â'r broses cylchol o gynllunio (gan gynnwys chwilio am wybodaeth a dod o hyd iddi), creu, gwerthuso a mireinio cynnwys digidol. Er y gall y broses hon fod yn gymwys i feysydd eraill y fframwaith, mae'n arbennig o bwysig wrth greu a chynhyrchu cynnwys digidol. Mae hefyd yn hanfodol cydnabod, fodd bynnag, y gall cynhyrchu cynnwys digidol fod yn broses greadigol iawn ac nid yw'n fwriad llesteirio creadigrwydd o'r fath. Mae cynnwys digidol yn cynnwys cynhyrchu testun, graffeg, sain, fideo ac unrhyw gyfuniad o'r rhain at amrywiaeth o ddibenion. Felly, bydd hyn yn cynnwys amryfal weithgareddau ar draws sawl cyd-destun gwahanol. |
|---|---|

| Llinyn | Elfen | Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 | Cam cynnydd 4 | Cam cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynhyrchu | **Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol** | Rwy'n gallu nodi camau i lwyddiant mewn ymateb i gwestiynau gyda chymorth. | Rwy'n gallu cynllunio tasg ddigidol, gan nodi meini prawf llwyddiant i gefnogi'r broses. | Rwy'n gallu creu a chynllunio gwaith yn annibynnol cyn dechrau ar dasg ddigidol. | Rwy'n gallu dewis a defnyddio amrywiaeth o dechnegau cynllunio yn effeithiol. | Rwy'n gallu cynllunio fy ngwaith digidol yn effeithiol, a hynny mewn ffordd cynyddol gymhleth. |
| | | Rwy'n gallu archwilio meddalwedd cyfarwydd. | Rwy'n gallu datblygu strategaethau ar gyfer dod o hyd i wybodaeth/cyfryngau penodol gan ddefnyddio gwahanol dechnegau a geiriau allweddol. | Rwy'n gallu addasu geiriau allweddol a thechnegau chwilio er mwyn dod o hyd i wybodaeth berthnasol. | Rwy'n gallu chwilio amrywiaeth o ffynonellau gan ddefnyddio technegau chwilio perthnasol a mwy cymhleth. | Rwy'n gallu ystyried manteision a chyfyngiadau dulliau a ffynonellau gwybodaeth digidol a'r canlyniadau rwy'n eu cynhyrchu ac yna defnyddio'r canlyniadau hyn fel sail i feirniadu ansawdd fy ngwaith digidol yn y dyfodol. |
| | | Rwy'n gallu dod o hyd i wybodaeth, fel delweddau, gan ddefnyddio geiriau allweddol. | | Rwy'n gallu dechrau cyfeirnodi ffynonellau a ddefnyddir yn fy ngwaith, ac ystyried a yw'r cynnwys yn ddibynadwy. | Rwy'n gallu defnyddio ystod o chwiliadau cymhleth yn annibynnol, e.e. *a/neu/+/-/ddim*. | Rwy'n gallu chwilio'n effeithlon am wybodaeth ar gyfer fy ngwaith digidol a gwerthuso dibynadwyedd ffynonellau gwybodaeth, gan gyfiawnhau fy marn a'm rhesymau dros fy newisiadau, ac rwy'n gallu cyfeirnodi gwaith gan ddefnyddio dulliau priodol. |
| | | | | Rwy'n gallu storio canlyniadau chwilio i'w defnyddio yn y dyfodol, e.e. *creu nod tudalen, ychwanegu at ffefrynnau*. | Rwy'n gallu gwerthuso dibynadwyedd ffynonellau gwybodaeth gan gyfiawnhau fy marn a'm rhesymau dros ddewisiadau, a chyfeirnodi gwaith gan ddefnyddio dulliau priodol. | |

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40511 ISBN digidol 978 1 80038 461 3

| Cynhyrchu | **Mae'r elfennau hyn yn ymdrin â'r broses cylchol o gynllunio (gan gynnwys chwilio am wybodaeth a dod o hyd iddi), creu, gwerthuso a mireinio cynnwys digidol. Er y gall y broses hon fod yn gymwys i feysydd eraill y fframwaith, mae'n arbennig o bwysig wrth greu a chynhyrchu cynnwys digidol. Mae hefyd yn hanfodol cydnabod, fodd bynnag, y gall cynhyrchu cynnwys digidol fod yn broses greadigol iawn ac nid yw'n fwriad llesteirio creadigrwydd o'r fath. Mae cynnwys digidol yn cynnwys cynhyrchu testun, graffeg, sain, fideo ac unrhyw gyfuniad o'r rhain at amrywiaeth o ddibenion. Felly, bydd hyn yn cynnwys amryfal weithgareddau ar draws sawl cyd-destun gwahanol.** |
|---|---|

| Llinyn | Elfen | Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 | Cam cynnydd 4 | Cam cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynhyrchu** | **Creu cynnwys digidol** | Rwy'n gallu ystyried a defnyddio meddalwedd priodol i ychwanegu testun a delweddau, gan ystyried maint a lliw. | Rwy'n gallu creu, golygu a threfnu cydrannau aml-gyfrwng (testun, delweddau, sain, animeiddiad a fideo) mewn meddalwedd benodol fel sy'n briodol, megis:<br>• testun a delweddau, e.e. *newid math, maint ac arddull y ffont; uwcholeuo unrhyw destun i ddefnyddio torri, copïo a gludo; defnyddio pwyntiau bwled; ymgorffori delweddau, tocio a throi*<br>• cyflwyniad, e.e. *ychwanegu hyperddolen drwy uwcholeuo; copïo a gludo; ychwanegu, dileu ac ad-drefnu sleidiau*. | Rwy'n gallu defnyddio ystod o feddalwedd i ddewis, cynhyrchu a golygu ystod o gydrannau aml-gyfrwng at ddiben penodol, megis:<br>• testun a delweddau, e.e. *fformatio testun (print trwm, tanlinellu, italig, uwcholeuo); gosod a golygu blychau testun; colofnau; defnyddio offer mireinio (gwirydd sillafu, chwilio a disodli); lapio geiriau; tocio; newid maint a siâp; newid delweddau; ychwanegu effeithiau; byrhau a hollti clipiau sain a fideo; rhoi effeithiau ar ddiwedd sleidiau; defnyddio techneg 'croen winwnsyn'*<br>• cyflwyniad, e.e. *cyfeiriad y dudalen; animeiddio; rhoi effeithiau ar ddiwedd sleidiau; dileu ac addasu delweddau; defnyddio cefndir; defnyddio botymau gweithredu i greu hyperddolen; ymgorffori gwrthrychau*. | Rwy'n gallu dewis a defnyddio amrywiaeth o feddalwedd, offer a dulliau priodol i greu, addasu a chyfuno cydrannau aml-gyfrwng ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd a dibenion, megis:<br>• testun a delweddau, e.e. *archwilio a defnyddio dulliau addasu delweddau yn effeithiol; archwilio a defnyddio'r agweddau niferus ar gynllun dogfen yn briodol; defnyddio animeiddiad, effeithiau fideo a sain fel adlais, tempo, amlen, haenu, cyfradd fframiau, fframiau allweddol*<br>• cyflwyniad, e.e. *defnyddio offer dylunio; addasu themâu a lliwiau at y diben; creu templedi meistr*. | Rwy'n gallu defnyddio amrywiaeth o feddalwedd, offer a dulliau i greu canlyniad prosiect proffesiynol unigol neu gydweithredol, yn cynnwys ystod o gydrannau aml-gyfrwng. |
| | | Rwy'n gallu ystyried a defnyddio animeiddiadau a fideos. | | Rwy'n gallu defnyddio gorchmynion bysellfwrdd fel llwybrau byr. | Rwy'n gallu archwilio a datblygu ystod o strwythurau dogfennau testun ffurfiol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion. | Rwy'n gallu creu dogfennau testun ffurfiol ar gyfer cynulleidfa broffesiynol, gan gynnwys defnyddio offer adolygu cydweithredol fel rhan o'r gweithgareddau hyn. |
| | | Rwy'n gallu creu gwaith digidol syml. | | Rwy'n gallu defnyddio offer meddalwedd i wella'r canlyniadau ar gyfer cynulleidfaoedd penodol. | | Rwy'n gallu defnyddio offer cyfeirnodi a mynegeio priodol i wella dogfennau. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40511 ISBN digidol 978 1 80038 461 3

# Fframwaith Cymhwysedd Digidol

| Cynhyrchu | Mae'r elfennau hyn yn ymdrin â'r broses cylchol o gynllunio (gan gynnwys chwilio am wybodaeth a dod o hyd iddi), creu, gwerthuso a mireinio cynnwys digidol. Er y gall y broses hon fod yn gymwys i feysydd eraill y fframwaith, mae'n arbennig o bwysig wrth greu a chynhyrchu cynnwys digidol. Mae hefyd yn hanfodol cydnabod, fodd bynnag, y gall cynhyrchu cynnwys digidol fod yn broses greadigol iawn ac nid yw'n fwriad llesteirio creadigrwydd o'r fath. Mae cynnwys digidol yn cynnwys cynhyrchu testun, graffeg, sain, fideo ac unrhyw gyfuniad o'r rhain at amrywiaeth o ddibenion. Felly, bydd hyn yn cynnwys amryfal weithgareddau ar draws sawl cyd-destun gwahanol. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinyn** | **Elfen** | **Cam cynnydd 1** | **Cam cynnydd 2** | **Cam cynnydd 3** | **Cam cynnydd 4** | **Cam cynnydd 5** |
| Cynhyrchu | **Gwerthuso a gwella cynnwys digidol** | Rwy'n gallu rhoi sylwadau ar waith mewn perthynas â maen prawf llwyddiant unigol. | Rwy'n gallu mynegi barn am fy ngwaith fy hun ac awgrymu gwelliannau yn seiliedig ar y meini prawf llwyddiant. | Rwy'n gallu esbonio rhesymau dros gynllun a chynnwys fy ngwaith fy hun a gwaith pobl eraill. | Rwy'n gallu cyfiawnhau'r rhesymau dros ddewisiadau ac esbonio manteision ac anfanteision y gwahanol allbynnau digidol rwy'n eu creu. | Rwy'n gallu cyfiawnhau rhesymeg i gynulleidfaoedd beirniadol o ran cynllun a chynnwys fy ngwaith digidol. |
| | | | | Rwy'n gallu sicrhau bod yr allbwn yn briodol at ddiben penodol. | Rwy'n gallu awgrymu a gwneud gwelliannau sy'n berthnasol i'r gynulleidfa a'r diben, ar sail adborth a hunanwerthusiad o'm gwaith digidol. | Rwy'n gallu cyfeirio'n briodol at ffynonellau o wybodaeth a ddefnyddir yn fy ngwaith digidol. |
| | | | | Rwy'n gallu sôn am y rhesymau dros y cynllun a'r cynnwys. | | Rwy'n gallu gwneud newidiadau manwl a phenodol i'm gwaith digidol, ar sail adborth a hunanwerthusiad, fel y bo'n berthnasol. |
| | | | | Rwy'n gallu gofyn am adborth/ymatebion gan bobl eraill, e.e. *defnyddio 'sylwadau' mewn llwyfannau ar-lein, gofyn cwestiynau neu ychwanegu awgrymiadau*. | | |
| | | | | Rwy'n gallu creu grwpiau a rhannu gwaith rhyngddyn nhw er mwyn iddyn nhw adolygu cynnwys digidol. | | |

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40511 ISBN digidol 978 1 80038 461 3

# Fframwaith Cymhwysedd Digidol

| Data a meddwl cyfrifiadurol | Mae meddwl cyfrifiadurol yn gyfuniad o ymholi gwyddonol, datrys problemau a sgiliau meddwl. Cyn i ddysgwyr allu defnyddio cyfrifiaduron i ddatrys problem, rhaid iddyn nhw yn gyntaf ddeall y broblem a'r dulliau o'i datrys.<br><br>Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd llythrennedd gwybodaeth a data, a byddan nhw'n archwilio agweddau ar gasglu, cynrychioli a dadansoddi. Bydd dysgywr yn edrych ar sut mae data a gwybodaeth yn cysylltu i mewn i'n byd digidol a bydd yn rhoi iddyn nhw sgiliau hanfodol ar gyfer y gweithle modern, deinameg. |
|---|---|

| Llinyn | Elfen | Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 | Cam cynnydd 4 | Cam cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Data a meddwl cyfrifiadurol | Datrys problemau a modelu | Rwy'n gallu nodi, creu a dilyn dilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau bob dydd. | Rwy'n gallu dadansoddi problem er mwyn rhagfynegi ei chanlyniad. | Rwy'n gallu creu a mireinio algorithmau a siartiau llif er mwyn datrys problemau, gan ddefnyddio nodweddion fel dolenni, gwerthoedd Boolean a ffurfiwlâu. | Rwy'n gallu creu model syml neu algorithm annibynnol. | Rwy'n gallu creu a dylunio modelau'n annibynnol, ac esbonio sut y maen nhw'n cynrychioli problemau yn y byd go iawn, *e.e. dewis dull i gyfleu problem, megis siart lif neu daenlen, a'i ddefnyddio'n gywir*. |
| | | Rwy'n gallu adnabod a dilyn cyfarwyddiadau yn y drefn briodol er mwyn cyflawni tasg. | Rwy'n gallu canfod a chywiro camgymeriadau sy'n achosi i gyfarwyddiadau (datrysiad) fethu (dadfygio). | Rwy'n gallu deall pwysigrwydd trefn datganiadau o fewn algorithmau. | Rwy'n gallu nodi'r gwahanol rannau o algorithm er mwyn gweld beth yw eu dibenion. | Rwy'n gallu datblygu datrysiadau rhesymegol er mwyn pennu prosesau rhaglen, ei mewnbynnau a'i hallbynnau, *e.e. dilyn ffug-god neu siart lif i sicrhau canlyniad, datblygu dilyniant ysgrifenedig o'r camau y gellid eu dilyn*. |
| | | Rwy'n gallu trefnu, dethol a defnyddio iaith syml i roi cyfarwyddiadau i bobl eraill. | Rwy'n gallu creu a chofnodi cyfarwyddiadau ar lafar, ysgrifenedig a symbolaidd er mwyn profi syniadau, *e.e. trefn deffro drwy ddiagram neu siart lif*. | | Rwy'n gallu nodi patrymau sy'n ailadrodd mewn algorithm a defnyddio iteriadau i wneud yr algorithm yn fwy effeithlon. | Rwy'n gallu dangos manteision rhannu gwahanol rannau o broblem yn gydrannau (gan ddefnyddio swyddogaethau/gweithdrefnau). |
| | | Rwy'n gallu rheoli dyfeisiau drwy roi cyfarwyddiadau. | Rwy'n gallu newid cyfarwyddiadau i gyflawni canlyniad gwahanol. | | Rwy'n gallu canfod a chywiro camgymeriadau mewn algorithmau. | |
| | | Rwy'n gallu nodi gwallau mewn setiau syml o gyfarwyddiadau (algorithm). | Rwy'n gallu nodi patrymau sy'n ailadrodd neu ddolenni mewn dilyniant, *e.e. nodi ble i gwtogi set o gyfarwyddiadau drwy ailadrodd camau, er enghraifft wrth ddysgu cân newydd*. | | | |
| | Llythrennedd gwybodaeth a data | Rwy'n gallu casglu data y daethpwyd o hyd iddyn nhw yn fy amgylchedd. | Rwy'n gallu casglu, cofnodi a threfnu data yn wahanol grwpiau neu fformatau, *e.e. tablau, siartiau, cronfeydd data a thaenlenni*. | Rwy'n gallu creu, mireinio a dadansoddi setiau data mewn tablau, siartiau, taenlenni a chronfeydd data i brofi neu gefnogi ymchwiliad. | Rwy'n gallu creu ffurflen casglu data, casglu data, chwilio data a chreu cronfa ddata a thaenlen gan ddefnyddio dull mewnbynnu data priodol. | Rwy'n gallu defnyddio rhaglenni priodol i greu tystiolaeth ystadegol yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gen i/senario a nodwyd a chyfiawnhau'r rhesymeg. |
| | | Rwy'n gallu didoli a dosbarthu gwrthrychau gan ddefnyddio un maen prawf. | Rwy'n gallu echdynnu gwybodaeth o dablau a graffiau a'i gwerthuso er mwyn ateb cwestiynau. | Rwy'n gallu defnyddio ystod o fformiwlâu taenlenni, *e.e. + - / x, swm, cyfartaledd, uchafswm, lleiafswm*. | Rwy'n gallu dadansoddi setiau data syml gan gynnwys grwpio data fel sy'n briodol. | Rwy'n gallu defnyddio fy nata i esbonio ac ychwanegu dilysrwydd at gasgliadau a, lle y bo'n bosibl, addasu casgliadau a/neu ragdybiaeth. |
| | | Rwy'n gallu cyflwyno a gwerthuso fy nata drwy greu siartiau syml, *e.e. pictogram*. | | | Rwy'n gallu dadansoddi setiau data mawr a nodi tueddiadau lle bo hynny'n briodol. | |

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40511 ISBN digidol 978 1 80038 461 3